



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Chwefror 2019 am 6.00yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 February 2019 at 6.00pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Clive Davies, Graham Evans, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Steffan Morgan, Yvonne O’Neill (*gadawodd/left at 7:30pm*), Trystan Phillips, Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

- 1. Croeso’r Cadeirydd a Materion Personol.** The Chair’s Welcome and Personal Matters. Arwyddo prydlles Clwb Bowlio Aberteifi / Signing of the Cardigan Bowls Club lease.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, **bawb i’r cyfarfod.** Cyfeiriodd at farwolaeth cyn-frysgyllwr y cyngor, Mr Ronnie Evans a wasanaethodd yn y swydd am 26 o flynyddoedd; cynrychiolodd y Maer y cyngor yn ei angladd. Ar nodyn mwy llawen, anfonwyd llongyfarchiadau’r cyngor at gyn-Faer Cyngor Tref Aberteifi, Mr Gwynfi Jenkins a’i briod, Marian, ar ddathlu priodas saffir (65 mlynedd) yn ddiweddar. Cytunwyd anfon carden atynt ar achlysur y garreg filltir nodedig yma. Anfonwyd cyfarchion y cyngor at y Cyng. Debra Griffiths ar ei hymddangosiad ar raglen S4C “Prynhawn Da” yn ddiweddar yn arddangos sgiliau coluro. Mae pryderon am ddyfodol y Pwll Nofio yn Aberteifi yn parhau, er y cafwyd cyfarfod cadarnhaol yn ddiweddar. Cyfrannwyd £1,000 gan y Maer a’r Faeres o Gronfa’r Maer tuag at yr apêl.

Gyda chymorth Mr Gareth Davies, Brynllynan, llwyddwyd i foglynnu logo’r cyngor ar bapur prydlles newydd Clwb Bowlio Aberteifi. Arwyddwyd y cytundeb gan y Maer a’r clerc ym mhresenoldeb y cyngor. Caiff ei ddychwelyd i Mr John Dyer er mwyn i ymddiriedolwyr y Clwb Bowlio ei arwyddo – digwyddiad hanesyddol yn dilyn cyfnod maith o ddryswch.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting. He referred to the passing of Mr Ronnie Evans, past mace-bearer to the council for 26 years; the Mayor represented the council at Mr Evans’ funeral. On a happier note, congratulations were extended to a past Mayor of Cardigan, Mr Gwynfi Jenkins and his wife, Marian, on celebrating their sapphire wedding (65 years) recently; it was agreed to forward a card to Mr and Mrs Jenkins. Cllr Debra Griffiths was commended for her appearance on the S4C programme “Prynhawn Da” recently where she displayed the intricacies of women’s make-up. The future of Cardigan Swimming Pool is still a concern although a positive public meeting was held. The Mayor and Mayoress have donated £1,000 towards the fund by means of the Mayor’s Fund.

With the assistance of Mr Gareth Davies, Brynllynan, the embossing of paper for producing the lease contract between the town council and Cardigan Bowling Club was successful. The contract was signed by the Mayor and clerk in the presence of members. The contract will now be returned to Mr John Dyer for the trustees of the Bowling Club’s signatures – the completion of the lease contract is much welcomed after many years’ exasperation.

- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllrs Catrin Miles (*ar ei gwyliau/on vacation*), Shan Williams (*digwyddiad teuluol/family event*), Debra Griffiths (*anhwylus/unwell*).

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Holl faterion cynllunio / All planning matters
---------------------------------	--

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 8 Ionawr.

Confirmation of Minutes of 8 January Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod 8 Ionawr yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 8 January council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor Mewn Pwyllgor 15 Ionawr.

Confirmation of the In Committee Council Budget Meeting Minutes of 15 January.

Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod cofnodion cyfarfod 15 Ionawr yn gywir.

Cllr Yvonne O'Neill proposed that the 15 January council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Wyn Jones.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion. There were no matters arising from the minutes.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Ionawr yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for January was distributed at the meeting.

8. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A190023	Crugmore, Penyparc	Variation of condition 6 of planning permission A140756 volume of feedstock.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objections.
A190029	Victoria House, Finch Square	Change of use from office to food outlet (takeaway)	<i>Mewn egwyddor, nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad ond disgwyllir i'r busnes ddarparu am gasglu a gwaredu sbwriel.</i> In principle the council has no objection, but expects facilities for the collection and disposal of rubbish to be efficient.
A190030	33 Felinban	Construct a UPVC porch at the front of the property, remove a PCC shed, erection of an extension in its place at the rear of the property.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
15/1/19	Anvil Fabrication & Metalworks: <i>Clwyd newydd ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed.</i> New gate on King George 5 th Playing Field.	C3	4671	£500.00 (0.00)
1/2/19	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor /</i> Rent of Council Office (<i>Ionawr /</i> January). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings (8, 15 & 22/1/19) <i>Band Lydan (Chwefror) /</i> Broadband (February)	A9 A9 A20	D/D 4672 4672	£250.00 (0.00) £75.00 (0.00) £20.00 0.00
18/1/19	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd /</i> Simultaneous translation (8/1/19 & 15/1/19)	A18	4673	£119.10 (0.00)

1/2/19	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ionawr / January)</i>	A5	4674	£763.03 (0.00)
1/2/19	Menter Aberteifi Cyf.: <i>Cyflenwad o drydan i'r goleuadau Nadolig. Supply of electricity for the Christmas lights.</i>	B1	4675	£137.64 (00.00)
22/1/19	Telemat: <i>Cynnal e-bost a chofrestru enwau parth. Maintenance of e-mail and registration of post.</i>	A20	4676	£74.10 (12.35)
14/1/19	<i>Caffi Sgwâr Finch / Finch Square Café: Stampiau / Stamps</i>	A8	4677	£30.92 (0.00)
5/2/19	Mrs Kathleen Martin: <i>Hurio ystafell yn Neuadd y Dref / Hire of Guildhall room for flood awareness group</i>	C11	4678	£18.00 (0.00)
1/2/19	Gareth Davies: <i>Boglynwaith ar gytundeb prydlas. Embossing of lease contract (hydraulic press): Cardigan Bowling Club</i>	A7	4679	£20.00 (0.00)
31/1/19	<i>Bachan Deche / Handyperson (Ionawr / January)</i>	A19	4680	£171.60 (28.60)

Cynigiodd y Cyng. Elaine Evans bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein.

Clr Elaine Evans proposed that the above bills be paid; this was seconded by Clr Siân Maehrlein.

Derbyniadau/Receipts:

5/2/19 *Trosglwyddwyd o Fanc HSBC/Transferred from HSBC* £10,000

Cyfraniad i'r Pwll Nofio / Donation to the Swimming Pool.

Awgrymwyd yng nghyfarfod y gyllideb ar 15 Ionawr bod y cyngor yn cyfrannu £8,500 i gronfa'r Pwll Nofio yn Aberteifi yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19. Yn ogystal, awgrymwyd bod £7,500 yn cael ei glustnodi i'w gyfrannu at Apêl Leol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20.

It was recommended at the 15 January council budget meeting that a donation of £8,500 be awarded to the Swimming Pool fund during the 2018-19 financial year. In addition, it was recommended that £7,500 be earmarked as contribution to the Local Appeal of the Ceredigion 2020 National Eisteddfod of Wales during the 2019-20 financial year.

Craffu "Amodau Gorchwyl" yr Archwilydd Mewnol.

Roedd copi o'r ddogfen wedi ei lawrlwytho i'r cynghorwyr ar 29 Ionawr.

Scrutiny of the Internal Auditor's "Terms of Reference".

A copy of the document had been downloaded to members on 29 January.

Strategaeth Blynyddol Ariannol i Gyngor Tref Aberteifi.

Annual Investment Strategy for Cardigan Town Council:

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Elaine Evans:

(i) **Datganwyd gan y Cyng. Evans ei bod yn mynychu cyrsiau hyfforddiant gyda'r cyngor sir.**

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

(i) **Llifogydd Felinban: Mae perchnogaeth y darn o dir ger 12/13 Felinban yn dal i fod yn ddirgelwch er bod pedair coeden wedi eu plannu yno'n ddiweddar gan y cyngor sir. Mae'r ymholiadau'n parhau.**

(ii) **Mae'r gwaith i greu llwybr addas o Bontycleifion i Barc Teifi i ddechrau cyn diwedd Chwefror ac amcangyfrifir y cymer tua saith wythnos i'w gwblhau.**

(iii) **Mae'r Cyng. Adams-Lewis unwaith eto wedi cysylltu gyda Ken Skates (gweinidog Llywodraeth Cymru) ynglŷn â'r llwybr arfaethedig o Heol Caemorgan i Benyparc.**

(iv) **Cynhelir Parêd Gŵyl Dewi Aberteifi ar ddydd Gwener, 1 Mawrth o Neuadd y Dref i'r Castell. Bydd Pendre a'r Stryd Fawr ar gau o 12:55-1:30yp. Disgwylir i blant o'r ysgolion lleol ymuno yn y parêd.**

(c) Y Cyng. Catrin Miles (in absentia):

- (i) Mae'r Cyng. Miles wedi derbyn cadarnhad oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mai nhw sy'n gyfrifol am y llwybr ger y bont newydd. Mae'r Cyng. Graham Evans ac aelod o'r cyhoedd wedi cadw'r llwybr yn glir o ddail trafferthus. Mae'r Asiant yn dweud bod y pyst sydd yn rhedeg lawr y llwybr yn ddigonol fel canllaw.
- (ii) Coed yn yr afon Teifi ger yr hen bont: Mae'r cyngor sir wedi pasio'r mater ymlaen at Gyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn dal i ddisgwyl am gadarnhad.
- (iii) Parcio yn Ridgeway: Ar ôl chwe mis, daeth ymateb o Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru/Llywodraeth Cymru. Rhaid i gwmni Tai Ceredigion Cyf. gynnig cais i droi'r darn o dir yn fannau parcio. Bydd hwn yn cael ei ystyried gan fwrdd Tai Ceredigion Cyf. maes o law.
- (iv) Nodyn i atgoffa'r cynghorwyr. Cytunwyd yng nghyfarfod mis Ionawr bod y cynghorwyr yn ymateb i'r ymgynghoriad ar doiledau cyhoeddus sydd yn gorffen ar 25 Chwefror. Anfonwyd e-bost ymlaen at yr aelodau ar 5 Rhagfyr (Eitem 10 Gohebiaeth [199]). Ailnfonwyd yr ohebiaeth ymlaen ar 5 Chwefror.
- (v) Cae Chwarae Pentop: Derbyniwyd adroddiadau o yfed ar y safle gyda photeli gweigion yn cael eu gadael yno. Mae angen cymryd camau i wneud yr ardal yn ddi-alcohol. Mae'r Cyng. Miles wedi cysylltu â Cathryn Morgan i ddechrau'r broses.

(a) Cllr Elaine Evans:

- (i) Cllr Evans stated that she had been attending training courses with the county council recently.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The Felinban floodline: The ownership of the land adjacent to 12/13 Felinban remains a mystery. The county council has planted four trees in the vicinity. Enquiries regarding ownership are continuing.
- (ii) The work to develop the shared-use path scheme from Pontycleifion to Parc Teifi will commence before the end of February and is expected to take seven weeks.
- (iii) Cllr Adams-Lewis has once again contacted Ken Skates (Welsh Government minister) regarding the proposed pathway from Caemorgan Road to Penyparc.
- (iv) The Cardigan St Davids Day Parade will take place on Friday, 1 March from the Guildhall to the Castle. Pendre and High Street will be closed to traffic from 12:55-1:30pm. Local schoolchildren are expected to join the parade.

(c) Cllr Catrin Miles (in absentia):

- (i) Cllr Miles has received confirmation from NMWTRA (North & Mid-Wales Trunk Road Agent) that they are responsible for the pathway leading down from the new bridge. Cllr Graham Evans and a member of the public have been instrumental in clearing the hazardous wet leaves from the steps. NMWTRA have confirmed that the hand-rail leading down to the pathway is secure and sufficient.
- (ii) Trees near the arches of the old bridge: The county council has passed responsibility to Natural Resources Wales. A response is still awaited.
- (iii) Parking at Ridgeway: A response has been obtained after six months from NMWTRA/Welsh Government. Tai Ceredigion Cyf. will need to apply for permission to develop this piece of land into parking bays. The board of Tai Ceredigion Cyf. is considering this possibility.
- (iv) Reminder to councillors: It was agreed at the January meeting that councillors would respond individually to the consultation regarding public toilets which ends on 25 February. An e-mail was forwarded to members on 5 December (Item 10 Correspondence [199]). The e-mail has subsequently been re-forwarded on 5 February.
- (v) Pentop Play Area: Reports have been received of alcohol consumption and, consequently, empty bottles disposed on the field. Cllr Miles has contacted Cathryn Morgan who has agreed to put into motion the process of applying for an alcohol-free zone at the field.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
211	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure:</i> 41 North Road: 17/1/19-18/1/19: <i>Dŵr Cymru / Welsh Water.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 17 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 17 January.
212	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure:</i> Pendre, <i>Stryd Fawr/High Street:</i> 12:55-13:30, 1/3/19 – <i>Parêd Dydd Gŵyl Ddewi / St Davids Day Parade.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 29 January.
213	CSC / CCC (Arwyn Morris): <i>Ffordd newydd i godi ymwybyddiaeth / New approach to delivering information.</i> <i>Cysylltydd Cymunedol / Community Connector</i> (South Ceredigion): Carys Owens	<i>Porth y Gymuned (Community Gateway); Porth Gofal (canolfan newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services Contact Centre); Dewis Cymru (cyfeiriadur adnoddau ar-lein / on-line resource directory); CLIC (canolfan y Gwasanaethau Cwsmeriaid / Customer Service centre).</i>
214	CSC / CCC (Katy Spain): <i>Ymateb i bryderon y cyngor am sefyllfa parcio Heol yr Orsaf / Response to the council's concerns regarding parking on Station Road.</i>	<i>Cafwyd cadarnhad y caiff yr ardal ei fonitro.</i> Confirmation that the area will be monitored in line with available resources
215	CSC / CCC (Place Plans): <i>Holiadur / Questionnaire.</i> <i>Caiff materion yr LDP eu cynnwys ynghyd â datblygiadau busnes a'r "Active Travel" (palmentydd pentrefol a threfol), awgrym parcio yn ardal Patch.</i> Cllr Clive Davies stated that the LDP would be included and business development, Active Travel (village and town pavements), and the proposed parking changes to the Patch area.	<i>Caiff yr holiadur ei gyflwyno yng nghyfarfod Partneriaeth Canol y Dref.</i> Copy has been forwarded to Cllr Clive Davies for attention at the Town Centre Partnership meeting.
216	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Diweddariad am waith ar lwybr Pontycleifion/Parc Teifi.</i> Work to commence on the Pontycleifion/Parc Teifi pathway scheme.	<i>Caiff y gwaith ei orffen erbyn diwedd mis Mawrth.</i> Work will be completed by the end of March.
217	<i>Cyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned: Cais am gynrychiolydd o'r cyngor i wasanaethu ar y pwyllgor.</i> Cardigan Hospital & Community League of Friends: Request for a council representative to serve on the committee.	<i>Mae'r Cyng. Shan Williams wedi cynrychioli'r cyngor mewn cyfarfod diweddar a bydd yn parhau fel aelod yn ystod ei thymor maerol.</i> Cllr Shan Williams has attended a recent meeting and will continue as a member during her forthcoming mayoral year.
218	<i>Theatr Byd Bychan: Gwahoddiad i aelodau fynychu cyfarfod cyhoeddus.</i> Small World Theatre: Invitation to members to attend the public meeting regarding future events: 8/2/19 – Session 1: 12:30-2:30pm. Session 2: 5:30-7:30pm.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 24 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 24 January.
219	Scope: <i>Rhaghysbysiad am gasgliadau.</i> Notification of Scope house-to-house collection dates: 1/4/19-21/4/19. 6/4/20-26/4/20	<i>Nodwyd.</i> Noted
220	Hawks Drift: <i>Ymateb i drin problem colomennod ar y Stryd Fawr.</i> Response regarding the pigeon problem on the High Street.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 5 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 5 February. <i>Cytunwyd trafod y mater yn is-bwyllgorau 19 Chwefror.</i> It was agreed to discuss the issue at the 19 February sub-committees.
221	<i>Comisiynydd yr Heddlu: Sesiwn trafod (21 Chwefror 8:30- 10:00yb). Dyddiad i wahodd y Comisiynydd i annerch y cyngor.</i> Police & Crime Commissioner: Discussion session (21 February, 8:30-10:00). Offer date to invite the Commissioner to address council.	<i>Yn anffodus nid yw'r dyddiad (21 Chwefror) yn dderbyniol. Gofynnwyd i'r clerc wahodd y Comisiynydd i gyfarfod is-bwyllgorau'r cyngor naill ar 21 Mai neu 18 Mehefin.</i> Unfortunately, the given date (21 February) is inconvenient. The clerk was asked to invite the Commissioner to visit the council at the sub-committees either on 21 May or 18 June.
222	Gérald Dardart: <i>Ymchwiliad i mewn i hanes dinasoedd Ewrop.</i> Research into the civic history of European cities.	<i>Cytunwyd anfon llun o'r Maer yn ei wisg faerol ymlaen.</i> It was agreed to forward a photograph of the Mayor in his mayoral robe.

223	Ben Lake AS/MP: <i>Posteri ynglŷn a'i gymorthfeydd.</i> Posters advertising his advice surgeries.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
224	<i>Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion / Ceredigion Young Farmers' Club: Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
225	<i>Cardigan Building Preservation Trust: Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
226	<i>Gŵyl Fawr Aberteifi: Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
227	<i>Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020 /</i> Ceredigion 2020 International Sheep Dog Trials: <i>Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
228	<i>Menter Aberteifi: Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
229	<i>Adroddiad y Bachan Deche (Ionawr)</i> Handyperson's Report (January)	<i>Mae angen cywiro'r glwyd yn y Maes Sgrialu.</i> The Handyperson stated that he would repair the pedestrian gate at the Skateboard Park.

Arwyn Morris: *Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid /* Corporate Lead Officer: Customer Contact
Elin Jones: *Swyddog Adain Cau Ffyrdd /* Road Closures Officer
Gari Jones: *Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth /* Assistant Engineer Transport Strategy
Katy Spain: *Rheolwr Gwasanaethau Parcio /* Parking Services Manager

12. Adolygiad yr Asesiad Risg / Review of the Risk Assessment (copi wedi ei flaenyrru drwy e-bost, 22/1/19 [i'w cadw ar ffeil])
(copy forwarded by e-mail on 22/1/19 [to be kept on file]).

Cyflwynodd y clerc ddogfen y Risg Asesiad i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd ar ei chymeradwyo. Cynigiwyd gan y Cyng. Elaine Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod y cyngor yn derbyn y ddogfen fel un gywir. Roedd pawb yn gytûn. Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer a'r clerc.

The clerk presented a copy of the schedule to the council. After a short discussion, it was agreed to approve the document. It was proposed by Cllr Elaine Evans and seconded by Cllr Siân Maehrlein that the schedule be approved by council. All members were in agreement. The document was duly signed by the Mayor and clerk.

Adolygiad o'r "Rheolau Sefydlog" / Review of the "Standing Orders" re. expenditure.

13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 22 Ionawr ac i drafod glanhau'r palmentydd.

Confirmation of 22 January Sub-committee Minutes and to discuss the cleaning of pavements.

Cynigiodd y Cyng. Marilyn Farmer bod y cofnodion yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the minutes were correct; seconded by Cllr Graham Evans.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1452, eitem (a): Cytunodd y Cyng. Yvonne O'Neill gadarnhau presenoldeb cynrychiolydd "Green Dragon" yng nghyfarfod 16 Ebrill gyda'r clerc.

Page 1452, item (a): Cllr Yvonne O'Neill agreed to confirm the presence of a representative from "Green Dragon" at the 16 April sub-committees.

Tud. 1452, eitem (a) Parcio ger y Pwll Nofio: Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr at y cyngor sir yn gofyn i'r adran ystyried caniatáu ardal penodedig i ddefnyddwyr y pwll barcio'n rhad ac am ddim.

Page 1452, item (a) Parking bays adjacent to the Swimming Pool: It was agreed to ask the county council to consider allowing free parking bays for swimming pool users.

Castell Aberteifi: Cytunwyd gwahodd Mr Jac Davies, cyfarwyddwr y Castell, i gyfarfod y cyngor ar 5 Mawrth.

Cardigan Castle: It was agreed to invite Mr Jac Davies, director of Cardigan Castle, to the March 5 council meeting.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer:

(i) Parcio cwch ym Mro Teifi.

Cytunodd y Cyng. Elaine Evans wneud ymholiadau gyda'r cyngor sir am reolau ynglŷn â pharcio cwch ar y ffordd ym Mro Teifi.

Parking of boat at Bro Teifi.

Cllr Elaine Evans agreed to enquire with the county council as to regulations regarding the parking on boat trailers on the highway at Bro Teifi.

(b) Y Cyng. / Cllr Clive Davies:

(i) Diweddariad y Maes Sgrialu.

Mae ymddiriedolwyr y pwyllgor yn cyfarfod i drafod eitemau i'w prynu er mwyn cadarnhau rheolau derbyn grant "Awards For All" y Loteri Fawr erbyn y dyddiad cau, Mai 2019. Maent hefyd wedi cytuno anfon cofnodion eu cyfarfodydd ymlaen at gyngor y dref. Mae Cathryn Morgan, Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf Cyngor Sir Ceredigion, yn gyfrifol am arwain ar gael prisiau datblygu'r maes sgrialu a hel grantiau.

Update of Skateboard Park. Notice from Cathryn Morgan regarding the failure to obtain extra funding from the Welsh European Funding Office (WEFO).

Trustees of the Skateboard Park are considering purchasing items in line with the demands of the "Awards For All" Big Lottery grant which have to be finalised by May 2019. They have agreed to forward minutes of meetings to the council for filing purposes. Cathryn Morgan, the county council Families First Coordinator, is responsible for leading on tendering and obtaining grants.

(ii) Cynlluniau Lle. Place Plans.

Gweler eitem 11 Gohebiaeth [215].

See item 11 Correspondence [215].

(iii) Taflenni mapiau'r dref. Reproducing town maps.

Mae'r Cyng. Davies wrthi'n trefnu ailargraffiad o'r map gyda chymorth Lisa Helier; mae nifer o hysbysebwy'r wedi addo i gynorthwyo gydag ariannu'r prosiect. Gofynnwyd i'r clerc baratoi derbynneb swyddogol y cyngor i'r pwrpas hwn.

Cllr Davies is in the process of designing a new town map with Lisa Helier; he has obtained a number of advertisers to assist in funding the project. The clerk was asked to produce official council receipts for this purpose.

(iv) Biniau i strydoedd y dref. Bins for town streets.

Cytunwyd trafod yr eitem yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgorau.

It was agreed to discuss this item in the next sub-committees meeting.

(v) Symud y ciosg ffôn. Removal of telephone kiosk outside the Guildhall.

Cytunodd y Cyng. Davies symud ymlaen i drafod symud y ffôn gyda swyddog BT.

Cllr Davies agreed to contact an officer of BT to arrange the removal of the kiosk.

(vi) Posteru yn anharddu mapiau newydd y dref.

Posters defacing the new town maps. Following Cllr Davies' swift intervention, a response has been received from the Animal Aid Campaign Officer.

Gofynnwyd i'r clerc blaenyrru'r e-bost i'r aelodau ac i'r wasg.

The clerk was asked to forward the e-mail to members and the press.

(c) Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:

(i) Sbwriel. Waste collection for soiled disabled products.

Cytunodd y Cyng. Elaine Evans wneud ymholiadau gyda'r cyngor sir.

Cllr Elaine Evans agreed to make enquiries with the county council.

- (d) **Y Cyng. / Cllr Catrin Miles:**
- (i) **Tesco Bags of Help:**
Derbyniwyd cadarnhad bod y cyngor wedi ennill gwobr o £1,000 o'r cynllun tuag at Gae Chwarae Pentop.
Confirmation has been received that the council has been awarded £1,000 towards the Pentop Play Area. Cllr Miles and the clerk have submitted the Project Completion Report.
- (e) **Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths:**
- (i) **Cywiriad i restr i diffibrilwyr.**
Amendment to the list of defibrillators: The notice should read "Canolfan Meugan" and not "Hafod Day Centre".
Cytunodd y Cyng. Clive Davies archwilio'r rhestr.
Cllr Clive Davies agreed to revise the list.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd "Cyfraniad i'r Pwll Nofio", "Amodau Gorchwyl yr Archwilydd Mewnol", "Strategaeth Blyneddol Ariannol i Gyngor Tref Aberteifi" ac "Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog" mewn pwyllgor. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed "Donation to the Swimming Pool", "Scrutiny of the Internal Auditor's Terms of Reference", "Annual Investment Strategy for Cardigan Town Council" and the "Review of the Standing Orders regarding expenditure" in committee. The above was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Steffan Morgan.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.10yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.10pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date